Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Kenneth Gibson ASA
Cynullydd y Pwyllgor Cyllid a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd yr Alban

10 Hydref 2022

Annwyl Kenneth

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Trefniadau ariannu ar ôl yr UE

Hoffwn eich hysbysu bod Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru wedi cynnal ymchwiliad i drefniadau ariannu ar ôl yr UE. Roedd hwn yn ymchwiliad trylwyr cychwynnol i'r cyllid newydd hwnnw, a lefel y cyllid sydd i fod i gael ei ddyrannu i Gymru. Mae'n bleser gennyf rannu ein hadroddiad â chi.

Mae ein hadroddiad yn tynnu sylw at ddiffyg eglurder ynghylch y gwaith craffu a wneir mewn perthynas â'r cronfeydd hyn, a sut y bydd penderfyniadau sy'n ymwneud â'u cymhwyso yng Nghymru yn destun trefniadau atebolrwydd, gan gynnwys rôl y Senedd yn y broses honno. Rwyf hefyd yn ddiolchgar o gael copi o'ch llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn Llywodraeth y DU ynghylch sut y mae'r cronfeydd hyn yn gweithio yn yr Alban a'r ffaith y bydd eu heffaith ar gynlluniau gwariant Llywodraeth yr Alban yn elfen allweddol o'ch gwaith craffu ariannol.

Fel y cytunwyd yn ystod cyfarfod cyntaf Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid ym mis Mehefin, mae manteision sylweddol i gydweithio rhwng y gwledydd datganoledig ar faterion o ddiddordeb a phryder cyffredin. O gofio'r

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

ffaith bod diddordebau ein Pwyllgorau'n gorgyffwrdd o ran ystyried y cronfeydd hyn, byddwn yn awyddus i archwilio'r materion hyn ymhellach yn ystod cyfarfod nesaf y Fforwm.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.